# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

Dydd Gwener, 18 Mawrth 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd

**Y Cynghorwyr:**

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.10 am**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y lleoedd gwag i Lywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi ei roi i Gadeirydd y Llywodraethwyr, i'r Pennaeth ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd. Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Yr Ysgol | Y Penodiad[au] |
|---|---|
| **Cwrt-henri**<br>(1 lle gwag 1 enwebiad) | Mr A Jones |
| **Gwenllian**<br>(2 le gwag 2 enwebiad) | Y Cynghorydd Ryan Thomas<br>Mr M Jones |
| **Llangadog**<br>(1 lle gwag 1 enwebiad) | Mrs M. Haines-Evans |
| **Pont-iets**<br>(1 lle gwag 1 enwebiad) | Y Cynghorydd T.J. Jones |
| **Bryngwyn-Glanymôr**<br>(1 lle gwag 1 enwebiad) | Mr M. Theodoulu |

**3. DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2017/18**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a fanylai ar ddyddiadau arfaethedig tymhorau a gwyliau'r ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Dywedwyd bod rheidrwydd, o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydlynu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r tymhorau yr un fath, neu cyn agosed ag y bo modd, ar yr amod y gallai Gweinidogion Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd ynghylch dyddiadau'r tymhorau os na ellid eu cysoni neu os oedd angen eu newid. Gan roi sylw i ofynion y Ddeddf, yr oedd y dyddiadau arfaethedig canlynol wedi'u paratoi ar gyfer dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgolion yn sgil eu trafod ac yn sgil ymgynghori'n gyffredinol â'r awdurdodau cyfagos:-

| **Y Tymor** | **Yn Dechrau** | **Hanner Tymor yn dechrau** | **Diwedd Hanner Tymor** | **Diwedd y Tymor** |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Hydref** | Dydd Llun 4ydd Medi 17 | Dydd Llun 30ain Hydref 17 | Dydd Gwener 3ydd Tachwedd 17 | Dydd Gwener 22ain Rhagfyr 17 |
| **Y Gwanwyn** | Dydd Llun 8fed Ionawr 18 | Dydd Llun 19eg Chwefror 18 | Dydd Gwener 23ain Chwefror 18 | Dydd Iau 29ain Mawrth 18 |
| **Yr Haf** | Dydd Llun 16eg Ebrill 18 | Dydd Llun 28ain Mai 18 | Dydd Gwener 1af Mehefin 18 | Dydd Mawrth 24ain Gorffennaf 18 |

*Sul y Pasg - Dydd Sul 1af Ebrill 2018; Gŵyl Fai - Dydd Llun 7fed Mai 2018*

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, pe byddid yn cymeradwyo'r dyddiadau, y byddent yn amodol ar y trefniadau cysoni a amlinellwyd uchod ac felly na ellid eu cadarnhau'n derfynol hyd nes y byddid wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar gael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, gymeradwyo Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau'r Ysgolion ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2107/18.**

**4. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 17EG CHWEFROR, 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 17eg Chwefror, 2016 yn gofnod cywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**